Datganiad i'r Wasg / Press Release
Lawnsiad Taith Geufadu o amgylch Cymru
Gwersyll Glan-llyn
17 Mai, 10.00 y bore

3 Swyddog o'r Urdd i Geufadu o amgylch Cymru mewn 3 wythnos!

Mewn gorchest anghyffredin, mae tri o swyddogion gweithgareddau awyr agored yr Urdd, sydd wedi eu lleoli yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn ger y Bala am roi cynnig ar geufadu o amgylch Cymru mewn tair wythnos. Bydd y tri yn rhoi cynnig ar fordwyo o amgylch glannau Cymru, i'r Afon Ddyfrdwy, i lawr yr Afon Hafren ac yn ôl i'r allan i Fôr Hafren. Bydd y daith yn dechrau ddydd Llun 31 Mai, ar ddiwrnod agoriadol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir eleni yn Llanerchaeron, Canolbarth Cymru. Byddent yn dechrau ar eu taith o harbwr Aberaeron.

Mae Arwel Phillips, Alun Pugh a Hefin Peregrine wedi bod yn paratoi ac yn ymarfer i'r daith ers misoedd lawer. Mae'r tri yn staff llawn amser yn y gwersyll ac wrth eu boddau yn gweithio yn yr arwyr agored. Cynhelir lawnsiad i'r daith **ar ddydd Llun 17 Mai, am 10,00 y bore** yng Ngwersyll Glan-llyn. Bydd cyfle I gael clywed mwy am y daith, cynnal cyfweliadau gyda'r criw, a'u gweld yn ymarfer ar lyn Tegid.

Mae dau brif bwrpas i'r trip; y cyntaf i godi arian at Ambiwlans Awyr Cymru sy'n cyflawni gwaith arbennig yn ardaloedd gwledig Cymru, a'r ail i hyrwyddo proffil tiwtoriaid awyr agored Cymraeg eu hiaith. Yn ystod y daith tair wythnos, bydd dau o Swyddogion awyr agored newydd Urdd Gobaith Cymru, sy'n cael eu hariannu fel rhan o gynllun 'Cyrraedd y Brîg, Llywodraeth y Cynulliad, yn tiwtora ieuenctid ar sgiliau canŵio a cheufadu ar hyd a lled Cymru. Bydd grwpiau bychain o blant a phobl ifanc yn derbyn hyfforddiant arbenigol mewn chwaraeon dŵr, yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â phosibiliadau gyrfaoedd yn y diwydiant awyr agored a hefyd yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â chlybiau gweithgareddau awyr agored lleol ledled Cymru.

Yn ôl Arwel: "Mae Alun, Hefin a minnau yn hynod o lwcus i gael cymorth a chyngor y ceufadwr profiadol **Ray Goodwin**, i'n harwain ar y daith. Ray oedd y canwiwr cyntaf i fordwyo Cymru ac ef hefyd oedd y cyntaf i ganŵio ar draws Môr yr Iwerydd. Roedd y daith honno, rydyn ninnau bellach wedi ei chyflawni, yn daith 78 milltir a barodd 21 awr mewn caiac. Bydd y daith hon yn gwbl wahanol. Bydd y daith oddeutu 650 milltir ac rydyn ni'n amcangyfrif teithio hyd at 40 milltir y diwrnod, a bydd modd i ni gael seibiant i gysgu, bwyta ac yfed wrth ddod i'r lan yn ystod y nos. Rydyn ni'n gobeithio cwblhau'r daith mewn 21 diwrnod.

Dwi'n meddwl y byddwn angen ymroddiad llwyr a phenderfyniad yn hytrach na ffitrwydd gyda'r daith hon. Yn sicr, dwi'n edrych ymlaen at y sialens!"

Dymuna'r tri ddiolch i'w noddwyr am eu cefnogaeth a'u cymorth yn ystod y camau ymbaratoi at y sialens. Ymysg y noddwyr mae Urdd Gobaith Cymru, Magnox North, Coleg Prifysgol y Drindod, Gelert a Urenco.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â Manon Wyn, Swyddog Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus, 01970 613115, 07976 003303